# Cytundebau Peidio â Datgelu: Canllawiau i Ddioddefwyr Troseddu

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Rhagfyr 2025

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy’n dal yr hawlfraint honno.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Cynnwys

**Rhagarweiniad** ... 4

Beth yw NDA? ... 4

**Rheolau newydd** ... 4

Beth sydd wedi newid? ... 4

Pwy sy'n ddioddefwr troseddu? ... 5

O dan y rheolau newydd, am beth alla i siarad? ... 6

Gyda phwy alla i siarad, ac i ba bwrpas? ... 6

Beth sy'n cael ei ganiatáu o dan y rheolau newydd? ... 10

**Cyfyngiadau presennol ar gytundebau NDA – gwybodaeth bwysig** ... 11

Beth all NDA ddim ei wneud? ... 11

Beth all cytundeb NDA dal ei wneud o dan y gyfraith newydd? ... 12

**Cwestiynau Cyffredin** ... 14

# Rhagarweiniad

Ar 1 Hydref 2025, newidiodd y gyfraith ar gytundebau peidio â datgelu (NDA). Mae'r canllawiau hyn yn egluro beth y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i bobl yng Nghymru a Lloegr a lofnododd NDA. Mae canllawiau ar wahân i fusnesau ar gael yma: [Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024: newidiadau i gytundebau peidio â datgelu - GOV.UK]

Disgrifir y ddeddfwriaeth newydd yn [adran 17 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024].

Cyn bo hir, bydd y newidiadau'n cael eu datblygu ymhellach mewn mesurau statudol newydd drwy'r Bil Hawliau Cyflogaeth a'r Bil Dioddefwyr a Llysoedd. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau cyn i unrhyw fesurau newydd ddod i rym.

## Beth yw NDA?

Contract cyfreithiol yw NDA sy'n gofyn bod unigolion yn cadw gwybodaeth neilltuol yn gyfrinachol. Yn gyfnewid am hynny, maen nhw'n derbyn rhywbeth o werth, fel tâl. Gall NDA fod yn gontract ar ei ben ei hun, neu'n gymal mewn contract ehangach.

Gallech lofnodi NDA wrth ddechrau swydd neu adael swydd ar ôl anghydfod, i gadw manylion y sefyllfa ac unrhyw setliad ariannol yn gyfrinachol. Er enghraifft, os dechreuwch weithio i gwmni, gallech lofnodi NDA wrth ddechrau yn y swydd yn eich atal rhag rhannu gwybodaeth gyfrinachol am y cwmni'n gyhoeddus.

Os torrwch delerau eich NDA, gallai parti arall yr NDA fynd â chi i'r llys am dorri'r contract. Os yw'r llys yn cytuno eich bod wedi torri eich NDA, gallai fod angen i chi dalu iawndal ariannol i barti arall eich NDA, a'u costau cyfreithiol hefyd. Os ydych wedi llofnodi NDA, byddwch efallai eisiau siarad â chyfreithiwr cymwysedig am ei delerau ac i bwy y gallwch ddatgelu gwybodaeth ac i ba bwrpas.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i gytundebau NDA ym mhob maes, yn cynnwys busnes a sectorau'r celfyddydau, elusennau, addysg, gofal iechyd a thechnoleg, a hefyd yn berthnasol i bob math o berthynas ac amgylchiadau sy'n defnyddio NDA, nid dim ond rhwng staff a chyflogwyr. Er enghraifft, os ydych yn cymryd rhan ar raglen deledu, gallech lofnodi NDA cyn mynd ar y rhaglen i warchod stori'r rhaglen a gwybodaeth sensitif arall rhag cael eu datgelu cyn i'r rhaglen gael ei darlledu.

# Rheolau newydd

## Beth sydd wedi newid?

O'r 1 Hydref 2025 ymlaen, cyflwynwyd newidiadau sydd:

- yn nodi'n glir a statudol na all NDA atal dioddefwr troseddu'n ddilys rhag adrodd y drosedd i'r heddlu

- yn sicrhau na all NDA atal dioddefwr troseddu'n ddilys rhag datgelu manylion y drosedd i gyrff a gweithwyr proffesiynol penodol er mwyn derbyn cyngor cyfrinachol neu gymorth i ymdopi neu adfer o'r drosedd

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, neu'n credu'n rhesymol eich bod, ac yn llofnodi NDA ar neu ar ôl 1 Hydref 2025 (neu ar 12 Rhagfyr ar gyfer datgelu i'r Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol – mwy o wybodaeth ar dud. 9), mae'r gyfraith newydd yn cadarnhau y gallwch rannu gwybodaeth am y drosedd gydag unigolion neu sefydliadau penodol (fel yr heddlu neu wasanaeth cymorth), hyd yn oed os yw'r NDA yn dweud na allwch.

Mae'r newidiadau hyn berthnasol i gytundebau NDA a lofnodwyd o'r dyddiad hwn ymlaen yn unig; bydd rheolau blaenorol yn berthnasol i gytundebau cyn hynny a gallent dal atal datgeliadau o'r fath. Amlinellir y sefyllfa gyfreithiol bresennol ar dud. 11-13 y canllawiau hyn. Mae'n bwysig nodi, o dan y gyfraith gyffredin, na all NDA atal rhywun yn gyfreithiol rhag adrodd trosedd i'r heddlu, a bod cyfyngiadau penodol yn eu lle'n barod, er enghraifft gwarchodaeth i chwythwyr chwiban a darpariaethau penodol ar gyfer lleoliadau Addysg Uwch.

## Pwy sy'n ddioddefwr troseddu?

Rydych yn ddioddefwr troseddu ar ôl dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol.

Rydych hefyd yn cael eich ystyried i fod yn ddioddefwr troseddu ar ôl dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i fod yn dyst i ymddygiad troseddol (h.y. gweld, clywed neu, fel arall, brofi effeithiau ymddygiad troseddol pan ddigwyddodd yr ymddygiad).

Rydych hefyd yn cael eich ystyried i fod yn ddioddefwr troseddu hyd yn oed:

- Os nad ydych wedi dweud wrth neb am y drosedd
- Os nad ydych wedi adrodd i'r heddlu
- Os nad oes ymchwiliad neu euogfarn wedi bod

Mae'r newidiadau newydd hefyd yn berthnasol i chi os credwch yn rhesymol eich bod wedi dioddef troseddu. Er enghraifft, rydych wedi llofnodi NDA yn eich gwaith. Fe wnaethoch wedyn brofi cyswllt corfforol dieisiau gan eich cyflogwr neu rywun arall yr ydych yn gweithio gyda nhw. Rydych yn deall nad yw'r math yma o ymddygiad bob tro'n droseddol ond hefyd yn deall bod harasio'n ymddygiad troseddol mewn rhai amgylchiadau. Hyd yn oed os nad ydych eisiau ei adrodd i'r heddlu, rydych yn credu'n rhesymol bod yr hyn a ddigwyddodd i chi'n drosedd. Gallech felly ddatgelu'r wybodaeth yma er hynny i riant neu feddyg, er enghraifft, er mwyn derbyn cymorth.

Dylid hefyd felly darllen unrhyw gyfeiriad at "dioddefwyr troseddu" yn y canllawiau hyn fel cyfeiriad at unigolion sy'n credu'n rhesymol eu bod yn ddioddefwr troseddu.

## O dan y rheolau newydd, am beth alla i siarad?

Cewch siarad ag unigolion neu grwpiau a restrir yn y rhan nesaf, ar gyfer pwrpasau penodol yn ymwneud â'r ymddygiad wnaeth eich gwneud yn ddioddefwr troseddu. Gelwir hyn yn "ymddygiad perthnasol".

Er enghraifft, ar neu ar ôl 1 Hydref 2025, fe wnaethoch lofnodi NDA cyffredinol yn y gwaith yn eich atal rhag rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif am eich cyflogwr. Yn ystod eich gwaith, mae rhywun yn ymosod yn rhywiol arnoch. O dan y rheolau newydd, cewch ddatgelu gwybodaeth benodol ar gyfer pwrpasau penodol, hyd yn oed os byddai'r wybodaeth wedi'i chyfyngu gan y NDA fel arall. Gallwch rannu manylion yr ymosodiad rhywiol â'ch cyfreithiwr er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol, neu gyda rhiant er mwyn derbyn cymorth emosiynol neu ymarferol. Mae datgeliad a ganiateir o'r fath yn cynnwys nid yn unig wybodaeth am yr ymosodiad ei hun ond gwybodaeth gysylltiedig hefyd sy'n helpu i'w egluro neu roi cyd-destun iddo. Pe bai'r ymosodiad wedi digwydd ar ôl patrwm o ymddygiad, fel bwlio, oedd ddim yn droseddol, gallwch er hynny ddatgelu hyn i'ch cyfreithiwr neu riant, ar yr amod bod angen gwneud hynny i geisio cyngor neu gymorth ar gyfer yr ymosodiad.

Nid yw'r rheolau newydd yn annilysu'r NDA yn llwyr – dim ond na all yr NDA eich atal rhag gwneud datgeliad a warchodir am yr ymddygiad troseddol perthnasol. Gallai'r NDA dal eich atal yn ddilys rhag datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif am eich cyflogwr, er enghraifft.

## Gyda phwy alla i siarad, ac i ba bwrpas?

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, neu'n credu'n rhesymol eich bod, ac yn llofnodi NDA ar neu ar ôl 1 Hydref 2025, mae'r newidiadau'n nodi'n glir mewn cyfraith na all yr NDA eich atal yn ddilys rhag siarad â'r heddlu.

Mae'r newidiadau newydd hyn hefyd yn caniatáu i chi siarad â chyrff newydd, fel cyfreithwyr a reoleiddir a gweithwyr proffesiynol a reoleiddir fel meddyg, gwasanaeth cymorth dioddefwyr, rheoleiddwyr, yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol (CICA) a theulu agos, ar gyfer pwrpasau penodol yn ymwneud â'r ymddygiad perthnasol (a elwir yn 'Datgeliadau a Ganiateir').

Rhoddir mwy o fanylion isod am bwy yw'r cyrff hyn, a beth allwch chi ei ddweud wrthynt:

*Yr heddlu neu gyrff eraill sy'n ymchwilio i neu'n erlyn troseddau*

Os ydych wedi dioddef trosedd, gallwch rannu'r wybodaeth gyda'r cyrff canlynol:

- Yr heddlu
- Cyrff eraill sy'n ymchwilio i neu'n erlyn troseddau, fel:

  - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
  - Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
  - Asiantaeth yr Amgylchedd
  - Y Comisiwn Gamblo
  - Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
  - Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
  - Y Swyddfa Twyll Difrifol

Gallwch wneud hyn er mwyn eu helpu i ymchwilio i, neu erlyn, yr ymddygiad perthnasol – hyd yn oed os yw eich NDA yn dweud na allwch.

*Cyfreithwyr cymwysedig*

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, gallwch rannu gwybodaeth gyda chyfreithwyr cymwysedig er mwyn cael cyngor cyfreithiol ar yr ymddygiad perthnasol, hyd yn oed os yw eich NDA yn dweud na allwch.

- Cyfreithiwr cymwysedig yw rhywun wedi’i awdurdodi’n gyfreithiol ac yn cael ei reoleiddio gan reoleiddiwr gwasanaethau cyfreithiol cymeradwy yng Nghymru a Lloegr, fel:
  - Cyfreithwyr
  - Bargyfreithwyr
  - Gweithredwyr cyfreithiol
- Gallwch hefyd siarad â’r cwmni cyfreithiol ei hun.

Nid yw’r newidiadau’n caniatáu rhannu gwybodaeth â rhywun sydd ddim yn cael ei reoleiddio, fel cyfreithiwr wedi ymddeol. Os felly, gellid dal gorfodi'r NDA.

*Gweithwyr proffesiynol a reoleiddir*

Gweithiwr proffesiynol a reoleiddir yw rhywun sy’n gorfod cwrdd â rheolau cyfreithiol penodol i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys bod â’r cymwysterau iawn, bod wedi cofrestru â rheoleiddiwr, neu ddefnyddio teitl swydd a warchodir. Mae’r rheolau hyn yn helpu i sicrhau bod y gweithwyr hyn wedi eu hyfforddi’n iawn ac yn gallu gwneud eu gwaith yn ddiogel, yn aml er mwyn diogelu iechyd, diogelwch neu les pobl.

Mae hyn yn cynnwys pobl fel:

- Parafeddygon
- Gweithwyr cymdeithasol
- Athrawon
- Meddygon

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, gallwch rannu gwybodaeth â gweithwyr proffesiynol sy’n cael eu rheoleiddio er mwyn derbyn cymorth proffesiynol gyda’r ymddygiad perthnasol, hyd yn oed os yw NDA yn dweud na allwch.

Er enghraifft, os ydych wedi dioddef ymosodiad rhywiol ac yn dweud wrth feddyg am y peth. Ni all NDA eich atal yn ddilys rhag rhannu gwybodaeth â'r meddyg am yr ymddygiad perthnasol i'r pwrpas hwnnw.

Gweithiwr proffesiynol heb eu rheoleiddio yw rhywun sy'n gallu gwneud swydd heb fod angen dilyn rheolau cyfreithiol penodol neu sydd heb gymwysterau swyddogol. Nid yw datgelu i'r unigolion hyn o fewn cwmpas y datgeliad a ganiateir hwn ac felly byddai dal yn bosib gorfodi NDA o ran datgeliadau a wneir i weithwyr proffesiynol heb eu rheoleiddio.

*Gwasanaethau cymorth dioddefwyr*

O dan y rheolau newydd hyn, os ydych yn ddioddefwr troseddu, gallwch rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau cymorth er mwyn derbyn cymorth i ymdopi ag effeithiau ymddygiad perthnasol.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Elusennau a sefydliadau sy'n cynnig cymorth cyfrinachol ac annibynnol
- Llinellau cymorth, cwnsela, a therapi
- Cynghorwyr, fel Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA), sy'n dilyn rheolau cyfrinachedd llym

Rhoddir manylion am wasanaethau cymorth dioddefwyr yma: Dod o hyd i gymorth - Gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion.

Gallwch siarad â'r gwasanaethau hyn i gael cymorth emosiynol, deall eich hawliau a dechrau adfer o effaith trosedd, hyd yn oed os yw eich NDA yn dweud na allwch.

Er enghraifft, mae rhywun proffil uchel yr ydych yn ei adnabod wedi gofyn i chi lofnodi NDA ar ôl iddyn nhw eich taro. Rydych yn ei adrodd i'r heddlu sy'n cyhuddo'r person. Gallwch yna fynd at wasanaeth cymorth dioddefwyr am gymorth ar sut i ddefnyddio'r system cyfiawnder troseddol a chael cymorth arbenigol i'ch helpu i ymdopi'n feddyliol ag effaith y drosedd. Wrth ymgysylltu â'r gwasanaeth cymorth hwn, gallwch ddweud wrthynt am yr ymddygiad troseddol er mwyn derbyn cymorth gyda'r drosedd gan y gwasanaeth hwnnw, er bod eich NDA yn dweud na allwch.

*Rheoleiddwyr*

Rheoleiddiwr yw sefydliad swyddogol sy'n goruchwylio rhai swyddi (fel meddyg neu gyfreithiwr) neu ddiwydiannau (fel cyllid, gofal iechyd, ac ynni) i sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau - sefydliadau sy'n goruchwylio'r gweithwyr proffesiynol uchod sy'n cael eu rheoleiddio. Dyma enghreifftiau o reoleiddwyr:

- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – rheoleiddiwr annibynnol ymarferwyr meddygol yn y DU

- Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr – y corff annibynnol sy'n rheoleiddio cyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, gallwch rannu gwybodaeth â rheoleiddiwr er mwyn cydweithredu â nhw yng nghyswllt ymddygiad perthnasol, hyd yn oed os yw NDA yn dweud na allwch.

Er enghraifft, os yw'r heddlu'n dweud wrth y Cyngor Meddygol Cyffredinol am feddyg a gyhuddir o drosedd, gallai'r rheoleiddiwr ofyn i'r dioddefwr am fwy o fanylion i'w helpu i benderfynu a ddylid tynnu'r meddyg oddi ar y gofrestr feddygol.

Mae'n bwysig deall nad yw'r rheolau newydd yn caniatáu i ddioddefwyr adrodd y drosedd yn uniongyrchol i'r rheoleiddiwr. O dan y gyfraith newydd yn adran 17, rhaid gwneud hynny i'r heddlu neu i gyrff eraill sy'n ymchwilio i neu'n erlyn trosedd (dylid darllen 'Cyfyngiadau presennol ar gytundebau NDA' ar dudalen 11 am sut y gallwch adrodd yn syth i'r rheoleiddiwr).

*Yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol (CICA)*

Mae'r CICA yn rhedeg dau gynllun iawndal (y Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol a'r Cynllun Iawndal i Ddioddefwyr Terfysgaeth Dramor), sy'n talu iawndal i unigolion a ddioddefodd anafiadau corfforol neu feddyliol o ganlyniad i drosedd dreisgar yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, neu o ganlyniad i derfysgaeth dramor. Am fwy o wybodaeth ewch i'r: Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol - GOV.UK.

Os ydych yn ddioddefwr troseddu ac wedi llofnodi NDA o 12 Rhagfyr ymlaen, byddwch yn cael datgelu gwybodaeth i'r CICA er mwyn gwneud neu fel rhan o wneud hawliad am iawndal yng nghyswllt ymddygiad perthnasol o dan y cynlluniau iawndal a weinyddir gan y CICA. Ni all NDA eich atal yn ddilys rhag gwneud hynny.

*Llysoedd a thribiwnlysoedd, wrth herio penderfyniad am iawndal*

Os ydych wedi gwneud hawliad i'r CICA am iawndal yn ymwneud ag ymddygiad perthnasol ac yn anfodlon â chanlyniad yr hawliad hwnnw, gallwch ddewis apelio i dribiwnlys a gellir herio penderfyniad y tribiwnlys mewn llys. Rydych yn cael rhannu gwybodaeth gyda'r tribiwnlys neu'r llys er mwyn herio neu fel rhan o herio penderfyniad o'r fath.

*Pobl sy'n cael derbyn gwybodaeth ar ran yr uchod*

Fel dioddefwr troseddu, cewch rannu gwybodaeth ag unrhyw un a awdurdodir yn swyddogol i dderbyn y wybodaeth ar ran y grwpiau a restrir uchod ac i'r pwrpas perthnasol yn ymwneud â'r ymddygiad perthnasol ar gyfer pob grŵp a restrir uchod, er bod eich NDA efallai'n dweud na allwch. Gallai hyn gynnwys derbynnydd mewn cwmni cyfreithiol sy'n cael derbyn gwybodaeth gan ddarpar gleientiaid ar ran cyfreithwyr y cwmni, er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol am y drosedd; neu gyfieithydd

sy'n cael derbyn gwybodaeth ar ran yr heddlu, er mwyn adrodd y drosedd. Bydd hyn yn sicrhau y gallwch rannu gwybodaeth bwysig a chael y cyngor neu'r cymorth sydd ei angen arnoch heb rwystrau diangen.

*Teulu agos*

Os ydych yn ddioddefwr troseddu, cewch rannu gwybodaeth â'ch plentyn, rhiant neu bartner i'r pwrpas o gael cymorth yng nghyswllt ymddygiad perthnasol, hyd yn oed os yw eich NDA yn dweud na allwch. Mae "partner" yn golygu rhywun yr ydych yn briod, neu mewn partneriaeth sifil, neu berthynas bersonol hirdymor â nhw.

O dan y newidiadau hyn, ni allwch rannu'r wybodaeth ag aelodau teulu eraill fel cefnder neu gyfnither, neu ffrind. Os gwnewch hyn, gallwch fod yn torri telerau'r NDA.

## Beth sydd ddim yn cael ei ganiatáu o dan y rheolau newydd?

Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw'r rheolau newydd yn caniatáu i ddioddefwyr troseddu siarad am ymddygiad perthnasol. Yn yr achosion hyn, gellid dal gorfodi'r NDA yn gyfreithiol oni bai fod cyfraith arall berthnasol yn caniatáu i chi rannu'r wybodaeth (fel gwarchodaeth i chwythwyr chwiban, a ddisgrifir isod).

Y prif achosion pryd na allwch rannu gwybodaeth am ymddygiad perthnasol yw:

- **Er mwyn gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.** Ni allwch rannu gwybodaeth â rhywun er mwyn gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus. Er enghraifft, ni chaniateir dweud wrth gyfreithiwr am y drosedd fel eu bod yn gallu siarad â'r cyfryngau amdani ar eich rhan.
- **Gallwch ond rhannu gwybodaeth a ddisgrifir yn yr adran "Gyda phwy alla i siarad, ac i ba bwrpas?"** ar dudalennau 6-10, a dim ond i'r pwrpasau penodol yn ymwneud â'r ymddygiad perthnasol a ddisgrifir ar gyfer pob grŵp. Ni chaniateir rhannu gwybodaeth gyda'r grwpiau hyn am unrhyw reswm arall. Er enghraifft, ni chewch ddatgelu gwybodaeth fasnachol i'r grwpiau hyn os nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r ymddygiad perthnasol a ddisgrifir yn yr adran honno.
- **Siarad â rhywun heblaw'r grwpiau a restrir ar dudalennau 6-10.** Ni chewch siarad am ymddygiad perthnasol i bobl neu sefydliadau sydd heb eu rhestru ar dud. 6-10 oni bai fod eich NDA neu gyfraith arall yn dweud y cewch.

Os na fyddwch yn dilyn y rheolau hyn, gellir dal gorfodi eich NDA a gallai parti arall yr NDA dal fynd â chi i'r llys am dorri'r contract. Os yw'r llys yn cytuno eich bod wedi torri eich NDA, byddwch dal efallai'n gorfod talu iawndal ariannol i barti arall eich NDA, a'u costau cyfreithiol.

# Cyfyngiadau presennol ar gytundebau NDA – gwybodaeth bwysig

Yn ogystal â'r newidiadau i'r gyfraith a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2025, mae cyfyngiadau eraill ar gytundebau NDA.

## Beth all NDA ddim ei wneud?

*Eich atal rhag adrodd trosedd i'r heddlu (gwarchodaeth o dan y gyfraith gyffredin)*

Hyd yn oed os ydych wedi llofnodi NDA, ni ellir eich atal yn ddilys rhag adrodd trosedd i'r heddlu neu wneud datgeliad i gyrff rheoleiddio neu statudol priodol eraill yng nghyswllt trosedd. Mae'r rheol hon yn berthnasol i bawb, nid dim ond staff neu ddioddefwyr troseddu, ac i bob NDA gan gynnwys rhai a lofnodwyd cyn 1 Hydref 2025. Er enghraifft, os llofnododd unigolyn NDA cyn dechrau gweithio mewn banc, yn dweud na ddylent drafod unrhyw beth sy'n cael ei ddweud neu'n digwydd yn y gwaith, gallent feddwl fod hyn yn eu hatal rhag adrodd ymosodiad arnynt gan gydweithiwr i'r heddlu.

Ond mae hyn yn anghywir – ni all NDA atal rhywun yn ddilys rhag adrodd trosedd i'r heddlu. Mae hyn yn wir p'un ai y llofnodwyd yr NDA cyn neu ar ôl cyflwyno'r rheolau newydd ar 1 Hydref 2025.

*Chwythu'r chwiban a chytundebau NDA*

Chwythwr chwiban yw gweithiwr sy'n adrodd mathau penodol o gamymddwyn, fel arfer rhywbeth a welsant yn y gwaith:

- Trosedd
- Methu â chydymffurfio â rheoliad cyfreithiol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Rhoi iechyd a diogelwch mewn perygl
- Difrod i'r amgylchedd
- Bod gwybodaeth am unrhyw un o'r uchod yn debygol o gael ei chuddio.

Gelwir hyn yn "ddatgeliad a warchodir". Gallai fod am rywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol, sy'n digwydd ar y funud, neu a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Os ydych yn weithiwr ac yn gwneud datgeliad a warchodir, mae'r gyfraith yn eich gwarchod rhag cael eich trin yn annheg neu golli eich gwaith o ganlyniad.

I wneud datgeliad a warchodir a bod yn gymwys am warchodaeth:

- Rhaid i chi gredu'n rhesymol bod adrodd y camymddwyn o fudd i'r cyhoedd (er enghraifft, y gallai eraill gael niwed)
- Fel arfer rhaid i chi ei adrodd i'ch cyflogwr, cynghorydd cyfreithiol neu berson penodedig. Person neu gorff penodedig yw sefydliad neu unigolyn y gall gweithiwr gysylltu â nhw y tu allan i'w gweithle i adrodd camymddwyn hysbys neu sy'n cael ei amau. Rhoddir rhestr o bersonau a chyrff penodedig yma ar gov.uk.

Mewn rhai amgylchiadau prin, gallwch ddatgelu'n gyhoeddus (er enghraifft, i'r cyfryngau), er enghraifft os yw'r mater yn "fethiant eithriadol o ddifrifol" a byddai'n rhesymol, yn yr amgylchiadau, i chi wneud y datgeliad hwnnw.

Ni ellir eich atal rhag chwythu'r chwiban. O dan y gyfraith (adran 43J Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996), ni all unrhyw ddarpariaeth mewn contract na NDA atal gweithiwr yn ddilys rhag gwneud datgeliad a warchodir. Os yw NDA yn ceisio gwneud hyn, ni fydd y rhan hwnnw o'r cytundeb yn ddilys ac ni ellir ei orfodi.

Rhoddir mwy o wybodaeth i weithwyr am chwythu'r chwiban yn GOV.UK.

*Cytundebau NDA mewn Addysg Uwch*

O'r 1 Awst 2025 ymlaen, o dan Ddeddf Addysg Uwch (Rhyddid i Lefaru) 2023, nid yw prifysgolion yn Lloegr a darparwyr addysg uwch eraill sy'n gofrestredig â'r Swyddfa Myfyrwyr yn cael defnyddio cytundebau NDA i atal myfyrwyr, staff, aelodau na siaradwyr ymweld rhag dweud eu dweud wrth unrhyw berson(au) yng nghyswllt cwyn am:

- Cam-drin rhywiol, harasio rhywiol neu gamymddwyn rhywiol
- Unrhyw fath arall o fwlio neu harasio nad yw'n dod o dan y pwynt bwled cyntaf

Os yw darparwr addysg uwch cofrestredig yn ceisio defnyddio NDA yng nghyswllt achosion o'r fath ar neu ar ôl 1 Awst 2025, bydd y cytundeb yn gyfreithiol annilys a gallai'r darparwr wynebu camau rheoleiddio gan y Swyddfa Myfyrwyr.

Er enghraifft, os yw myfyriwr yn adrodd harasio rhywiol gan fyfyriwr arall, ni ddylai'r brifysgol ofyn i'r myfyriwr lofnodi NDA yn eu hatal rhag siarad am yr harasio.

## Beth all cytundeb NDA dal ei wneud o dan y gyfraith newydd?

*Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989*

Nid yw'r gyfraith newydd yn newid effaith Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989. Mae'r Ddeddf hon yn gwahardd datgelu rhai mathau o wybodaeth sensitif (e.e. yn ymwneud â diogelwch gwladol, cudd-wybodaeth neu amddiffyn). Os yw datgeliad

wedi'i wahardd gan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, bydd y troseddau'n ymwneud â datgelu diawdurdod yn parhau i fod yn berthnasol.

# Cwestiynau Cyffredin

**Dw i wedi llofnodi NDA ac eisiau siarad am rywbeth a ddigwyddodd i mi, ond wn i ddim a yw'n drosedd. Ydw i'n cael ei drafod?**

Os credwch yn rhesymol bod yr hyn a ddigwyddodd i chi'n drosedd a achosodd niwed uniongyrchol i chi, rydych yn cael eich ystyried yn ddioddefwr troseddu i bwrpas y newidiadau hyn a gallwch siarad am yr ymddygiad hwnnw gyda'r grwpiau ac ar gyfer y pwrpasau a restrir ar dudalen 6 y canllawiau hyn.

**Beth sy'n digwydd os gwnaf rywbeth nad yw'r rheolau newydd yn ei ganiatáu?**

Os ydych wedi llofnodi NDA ac rydych yn gwneud rhywbeth nad yw'r rheolau newydd yn ei ganiatáu, gellir dal gorfodi'r NDA. Mae hyn yn golygu y gall y parti arall yn yr NDA fynd â chi i'r llys am dorri'r contract. Os yw'r llys yn cytuno eich bod wedi torri eich NDA, byddwch dal efallai'n gorfod talu iawndal ariannol i barti arall yr NDA, a'u costau cyfreithiol. Os ydych yn poeni, dylech siarad â chyfreithiwr.

**Dw i wedi llofnodi NDA cyn 1 Hydref 2025. Beth y mae'r rheolau newydd yn ei olygu i mi?**

Bydd y gyfraith newydd ond yn berthnasol i gytundebau NDA a lofnodwyd ar neu ar ôl 1 Hydref 2025. Os llofnodwyd NDA cyn hynny, bydd y rheolau blaenorol yn berthnasol a gallai'r NDA dal fod yn gyfreithiol ddilys. Gallwch o hyd siarad am ymddygiad troseddol i'r heddlu, p'un ai y gwnaed yr NDA cyn neu ar ôl y newidiadau hyn.

**Mae fy NDA, a lofnodwyd ar ôl 1 Hydref 2025, yn dweud na allaf siarad am fy mhrofiadau gyda neb. Ydy'r rheolau newydd yn golygu y gallaf siarad gyda rhai pobl, beth bynnag ddywed fy NDA?**

Ydy, gallwch siarad â rhai pobl ar gyfer rhai pwrpasau'n ymwneud ag ymddygiad perthnasol a nodir yn y rhestr o Ddatgeliadau a Ganiateir, hyd yn oed os yw'r NDA yn dweud na allwch.